

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
Nos Lun 24ain Mai, 2021 am 7.40 y.h.
Minutes of Trawsgoed Community Council held virtually via Zoom on
Monday 24th May, 2021 at 7.40 p.m.

Presennol/Present: Cyng./Cllr. P. Bonner. (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans,
Cyng./Cllr. H.M. Evans, Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis,
Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cyng./Cllr. L. Owen.
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

Ymddiheuriadau / Apologies:.,

- | | |
|---|---|
| <p>1. Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.</p> | <p>Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items.</p> |
| <p>2. Materion Personol</p> | <p>Personal Matters</p> |
| <p>3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 12fed Ebrill, 2021. Cywirdeb Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.</p> | <p>Minutes of the Last Meeting
The minutes of the last meeting, 12th April, 2021, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. C Lloyd Morgan and seconded by Cllr. L. Owen.</p> |
| <p>4. Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi.</p> | <p>Risk and Asset Assessment
There were no matters arising.</p> |
| <p>Materion yn codi o'r Cofnodion
Y materion isod yn parhau angen sylw:</p> | <p>Matters arising from the Minutes
The following items continue needing attention:</p> |
| <p>5. Coed angen torri nol ger Cwmseiri.</p> | <p>Trees need cutting back near Cwmseiri.</p> |
| <p>6. Llinellau gwyn angen ail-baentio ar y ffordd, mater o frys ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn a Cnwch Coch.</p> | <p>White lines on the roads need painting, urgently required at Llanfihangel-y-Creuddyn and Cnwch Coch.</p> |
| <p>7. Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau – yr Aelod Lleol yn parhau i ddilyn lan – cadw ar agenda.</p> | <p>Flooding on the road near New Cross is continuing. The Local Member is continuing to try and resolve the matter – keep on the agenda.</p> |
| <p>8. Nifer o dyllau ar y ffordd o amgylch y Bont ger Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn.</p> | <p>Several potholes on the road around the Bridge near Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn.</p> |
| <p>9. Gwter ar y ffordd canlynol wedi gorlenwi: ben y Rhiw Cnwch Coch; ar y ffordd o Gnwch Coch i Gapel Cynon; Penffordd, y Gors i Lanfihangel-y-Creuddyn gwter wedi gorlenwi gyda drysni a'r dwr yn gorlifo ar y ffordd.</p> | <p>Overflowing gutters on the following roads: top of the hill out of the village of Cnwch Coch and along the road towards Capel Cynon; from Penffordd, New Cross towards Llanfihangel-y-Creuddyn the overgrown grass has caused water to seep on the road.</p> |

- | | | |
|-----|---|--|
| 10. | Banc y Nant Nantyrhaidd wedi gordyfu o Adeilad Sefydliad y Merched i lawr at Awel-y-Bryn ac angen torri'r drysni 'nol. | The bank has overgrown at Nantyrhaidd brook from the WI building down towards Awel-y-Bryn and needs cutting back. |
| 11. | Ger tro Tanllan, Llanfihangel-y-Creuddyn arwydd tro cas wedi cae adnewyddu ynghyd â pholyn arwydd dynodi pentref Cnwch Coch. | Near Tanllan corner, Llanfihangel-y-Creuddyn the sharp corner sign has been renewed as well as a village sign for Cnwch Coch. |
| 12. | Er y gwnaed cais am i'r glanhawr ffordd i deithio ar y ffordd i fyny at Gapel Carmel, Cnwch Coch a hefyd y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag at y B4340 nid oes cadarnhad bod hyn yn digwydd eto. | No response for the request of the road sweeper to sweep the road up to Capel Carmel, Cnwch Coch as well as on the on road from the Old School, Llanafan towards the B4340 |
| 13. | Angen cadw llygad ar y drain ddŵr sydd wedi gorlenwi gyferbyn â Chapel Llanafan | Need to monitor the blocked water drain opposite the Chapel at Llanafan. |
| 14. | Y ffyrdd canlynol angen sylw brys ar yr arwynebedd:
Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant; ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn; y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin; rhwng Llanfihangel-y-Creuddyn tuag at y A4120 gyda thyllau mawr ar yr arwynebedd mewn ambell i fan. | The following road surfaces need urgent attention: leading from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant; the road passing the School at Llanfihangel-y-Creuddyn; road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields as well as the one from Llanfihangel-y-Creuddyn towards the A4120 where there are considerable deep potholes in some locations. |
| 15. | Y ffordd B4340 yn rhoi wrth Royal Oak Llanafan, y Cyngor Sir yn ymwybodol. | Subsidence on the B4340 road at Royal Oak Llanafan, County Council aware. |
| 16. | Taliad i Gynghorwyr Cymuned yn unol ag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru: Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddychwelyd ffurflen at y Clerc sy'n nodi'u dymuniad unigol i dderbyn neu wrthod y taliad gorfodol o £150.00 | Payment to Community Councillors in accordance with the Annual Report of the Independent Panel for Wales: Councillors were reminded to return a form to the Clerk indicating their individual wish to accept or reject the mandatory payment of £150.00 |
| 17. | Sedd ar gyfer Pentref Cnwch Coch: adroddwyd bod y preswylwyr y Pentref wedi archebu sedd eistedd. | Bench for Cnwch Coch: it was reported that residents had purchased a new bench for the village. |
| 18. | Materion Cyllidol
Cyfrifon 2020/21: Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mrs. H. Matthews i ymgymryd ag Archwiliad Mewnol o'r Cyfrifon. | Finance
Accounts 2020/21: Resolved for the Clerk to contact Mrs. H. Matthews to undertake Internal Audit of the Accounts. |

Gohebiaeth

19. Cydnabyddiaeth am rodd ariannol wrth Cymdeithas Maes Chwarae Maes y Felin ac hefyd wrth Sefydliad y Merched, Llanafan
20. Cofnodir derbyn lythyr wrth Gyngor Tref Nefyn yn pryderu am sefyllfa ail-gartrefi.
21. Cais gan grwp o unigolion yn gofyn am gynnwys Pabi Gwyn wrth ddynodi Dydd Sul y Cofio. Trafodir yn agosach at y dyddiad.
22. Araith yr Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir 2021
23. **Cais Cynllunio:**
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio:
A210385: Tir: Penuwch Fach, Llanfihangel-y-creuddyn,

Y Bwriad: Erection of four subterranean tourist accommodation cabins with associated landscaping, vehicular access, parking and ancillary works.

Unrhyw Fater Arall

24. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i adrodd fod angen adnewyddu rhai o'r slatiau pren ar y bont fach ar y llwybr wrth ymyl Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn a'r Tir Comin.
25. Cysgodfa Bws yn Llanafan. Cyfeiriwyd y gwnaed trefniadau lleol ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf i ddefnyddio'r cysgodfa bws yn Llanafan fel llyfrgell i drigolion fedru rhannu llyfrau ayb. Er fu'n adnodd gwerthfawr i'r gymuned lleol derbyniwyd ambell i gwyn fod gormod o nwyddau'n y cysgodfa bellach. Yr amser wedi dod i adfer y lleolir yn ôl fel cysgodfa bws a cytunwyd i roi arwydd ar y cysgodfa yn nodi rhybudd o 7 niwrnod i fynd a'r eitemau o'r lleoliad cyn yr eir a hwy i'r siopau elusen.

Correspondence

Acknowledgement from Maes y Felin Playing Field Association and also from Llanafan WI for recent donations.

Minute the receipt of a letter from Nefyn Town Council of their concern regarding second-homes in Wales.

Request from a group of individuals asking to include White Poppy during Remembrance Service Day. To be discussed near the time.

Leader of Ceredigion County Council's Speech at the 2021 Annual Meeting of the County Council

Planning Application

There were no objections to the planning application:

A210385: Land At Penuwch Fach, Llanfihangel-y-creuddyn,

Erection of four subterranean tourist accommodation cabins with associated landscaping, vehicular access, parking and ancillary works.

Any Other Business

The Clerk to contact Ceredigion County Council to report that some of the wooden slats on the small bridge on the path adjacent to Llanfihangel-y-Creuddyn School and the Common land needs replacing.

Bus Shelter at Llanafan. Local arrangements had been undertaken since the beginning of the first lockdown to use the bus shelter at Llanafan as a library for residents to share books etc. Although it was a valuable resource to the local community, some complaints were received that there were now too many goods in the shelter. The time had come now for the location to be referred back to a bus shelter and it was agreed to place a sign on the shelter indicating 7 days' notice to remove the items from the location before they are taken to charity shops.

26. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 28ain June, 2021 am 7.30 y.h.
drwy Zoom.

DATE OF NEXT MEETING
Monday 28th June, 2021 7.30 p.m. via
Zoom